

Y Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd

Adroddiad Blynyddol

2022 - 2023

Scrutiny
in Carmarthenshire



sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



CYNNWYS

Rhagair y Cadeirydd 2

1.	Rhagarweiniad.....	4
2.	Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2022/23.....	6
2.1	Rheoli Cyfarfodydd.....	6
2.2	Rôl yr Aelod Cabinet.....	6
2.3	Y Flaengynllun Waith.....	7
2.4	Y Fframwaith Porth ac adroddiadau wedi'u dosbarthu ar wahân (e-bost)	8
2.5	Monitro Perfformiad	9
2.6	Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf.....	10
2.7	Adroddiadau Craffu cyn Gwneud Penderfyniadau.....	11
2.7.1	Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (Cryfhau mesurau rheoli cysylltiedig â chŵn) Tachwedd 2022	11
2.7.2	Y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Wastraff – Rhagfyr 2022.....	12
2.7.3	Llawlyfr Cynnal a Chadw'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd – Ionawr 2023,12	
2.7.4	Cynllun Noddi Cylchfannau – Ebrill 2023.....	13
2.7.5	Cynllun Rheoli Strategol Glanhau Strydoedd 2023 - Mai 2023.....	13
2.8	Adroddiadau Ychwanegol ac Adroddiadau Diweddarau.....	14
2.8.1	Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ansawdd Aer – Tachwedd 2022	14
2.8.2	Canllaw Dylunio Draenio Priffyrdd ar gyfer Datblygiadau Newydd – Tachwedd 2022 – Craffu trwy E-bost.....	15
2.8.3	Polisi Graffiti – Rhagfyr 2022 – Craffu trwy E-bost.....	15
2.8.4	Cyngor Sir Caerfyrddin - Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan – Rhagfyr 2022.....	15
2.8.5	Polisi Bagiau Tywod Sir Gaerfyrddin 2022 – Ionawr 2023 – Craffu drwy E-bost	15
2.8.6	Lefelau Ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol Gwarchoddedig - Diweddariad - Chwefror 2023	16
Ar gais y Pwyllgor, cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio ynghylch y cynnydd a'r gwaith a wnaed i ymateb i effeithiau llygredd ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a warchodir.		
2.8.7	Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Strategaeth Farchogaeth Sir Gaerfyrddin – Ionawr 2023.....	16
2.8.8	Newidiadau Llywodraeth Cymru i Derfynau Cyflymder mewn Deddfwriaeth (20mya) - Ionawr 2023.....	16
2.8.9	Strategaeth Coed a Choetiroedd ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin 2023-2028 – Chwefror 2023	17
Cynllun Busnes Cwm Environmental Ltd 2022-23 ac Adroddiad Cynnydd Hanner Blwyddyn - Mai 2023		
2.9	Atgyfeiriadau.....	18

2.10 Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Awgrymu Pynciau ar gyfer y Pwyllgorau Craffu	18
3. Gweithgarwch y Pwyllgor Craffu	20
3.1 Ymchwiliadau Craffu (Gorchwyl a Gorffen).....	20
3.2 Datblygu Aelodau ac Ymweliadau Safle	21
4. Heriau	22
5. Gwaith y Pwyllgor yn y Dyfodol.....	22
6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu	23
7. Presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor	24

Rhagair gan y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol cyntaf y Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer cyfnod yr etholiad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn dangos yr amrywiaeth o waith y mae'r pwyllgor craffu hwn wedi'i wneud yn ystod y cyfnod rhwng Mai 2022 ac Ebrill 2023.



Er bod newid wedi bod yn aelodaeth y Pwyllgor yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, croesawodd aelodau newydd yr her a dangoswyd brwdfrydedd ac angerdd ganddynt o'r cychwyn cyntaf. Yn ogystal â'r Rhaglen Datblygu Aelodau, bu'r Pwyllgor yn cynnwys sesiynau datblygu â ffocws yn ei Flaengynllun Gwaith i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o bynciau penodol.

Llwyddodd pob Aelod o'r Pwyllgor Craffu i weithio o bell yn dda ac addasu'n rhwydd i'r cyfarfodydd aml-leoliad. Llwyddodd y Pwyllgor i ddatblygu ei flaengynllun waith yn llwyddiannus, a'i gysoni fel bod materion allweddol yn cael eu cyflwyno gerbron ein Pwyllgor cyn i'r Cabinet wneud y penderfyniad. Cyflawnodd y Pwyllgor hyn drwy gwestiynu a dadlau ynghylch cynnwys adroddiadau ac argymhellion ar eitemau perthnasol a phwysig er budd y Cymunedau yn Sir Gaerfyrddin.

Hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad i Aelodau'r Cabinet o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn am gyflwyno gwybodaeth dechnegol a gweithredol fanwl i'r Pwyllgor. Hoffwn hefyd ddiolch i gynghorau lleol a thrigolion Sir Gaerfyrddin sydd wedi cymryd rhan weithredol yn y Pwyllgor hwn drwy ysgrifennu atom ac ymuno â chyfarfodydd ar-lein.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'm Is-gadeirydd, y Cynghorydd Karen Davies am ei chefnogaeth amhrisiadwy a'i chyfeillgarwch trwy gydol y flwyddyn.

I gloi, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i holl Aelodau'r Pwyllgor am eich presenoldeb, eich proffesiynoldeb a'ch gwaith craffu rhagorol dros ein cymunedau ac ar eu rhan.

Y Cynghorydd John James

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd 2022/2023

1. Rhagarweiniad

Mae'r swyddogaeth graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu y Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrrff partner sy'n effeithio ar y Sir, a llywio'r penderfyniadau hynny.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bwyllgorau craffu "baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol."

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn ystod y cylch llai o bwyllgorau o chwe mis ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2022/23. Ei nod yw tynnu sylw at waith y Pwyllgor a myfyrio ar y cyflawniadau gan nodi'r hyn a weithiodd yn dda a lle gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i hwyluso trafodaethau ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Y Cyngorydd John James sy'n cadeirio'r Pwyllgor ac mae'n cynnwys 13 Aelod Etholedig, ac mae un sedd ar gyfer aelod o'r Grŵp Annibynnol wedi bod yn wag drwy gydol 2022/23. Darperir cymorth i'r Pwyllgor gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

Mae'r Pwyllgor yn helpu i ddarparu nifer o fesurau canlyniadau allweddol o fewn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018-23:

- **Amcan Llesiant 5 -**
Creu mwy o swyddi a thwf ledled y Sir.
- **Amcan Llesiant 7 -**
Byw'n dda - helpu pobl i fyw bywydau iach.
- **Amcan Llesiant 8 –**
Cefnogi cydlyniant cymunedol, cydnherthedd a diogelwch.
- **Amcan Llesiant 9 –**
Byw'n Dda / Heneiddio'n Dda – Cefnogi cysylltiadau da gyda ffrindiau, teulu a chymunedau mwy diogel.
- **Amcan Llesiant 10 –**
Amgylchedd Iach a Diogel – Edrych ar ôl yr amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol.
- **Amcan Llesiant 11 –**
Amgylchedd iach a diogel – Gwella isadeiledd a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth.
- **Amcan Llesiant**
13 - Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well.

Mae rhai o'r mesurau a'r camau o fewn Amcan Llesiant 12 yn gorgyffwrdd â'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau, ond byddai'r wybodaeth angenrheidiol hefyd yn cael ei darparu i'r Pwyllgor hwn.

2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2022/23

2.1 Rheoli Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu 7 cyfarfod yn ystod blwyddyn y Cyngor 2022/23 yn unol â Blaengynllun Waith y Pwyllgor.

Yn unol â'r darpariaethau ar gyfer adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd ar sail aml-leoliad a oedd yn rhoi'r cyfle i fod yn bresennol yn rhithiwr dros Zoom neu wyneb yn wyneb. Roedd yr holl aelodau'n croesawu'r ffordd newydd o weithio ac wedi cyflawni'r rôl graffu yn hyderus ac yn broffesiynol naill ai o bell neu wyneb yn wyneb.

2.2 Rôl yr Aelod Cabinet

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2020, cytunodd y Cyngor ar nifer o newidiadau i'w Reolau Gweithdrefn Graffu a'i gylchoedd gwaith. Y prif newid oedd y byddai disgwyl i Aelodau'r Cabinet fod yn bresennol, cyflwyno'r adroddiadau a roddwyd ar y Flaengynllun Waith gan y Pwyllgor ac ateb cwestiynau a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu a thrwy hynny ddwyn y Cabinet i gyfrif. Galwyd ar Swyddogion perthnasol er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol am faterion gweithredol.

Yn ogystal, cymeradwyodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Medi, 2022 argymhellion Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad i ddiwygio cylchoedd gorchwyl y Pwyllgorau Craffu gyda phob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Cabinet penodol a'u gwasanaethau priodol a darparu trosolwg ohonynt.

Ar yr un pryd mabwysiadwyd yr enw craffu newydd felly yn hytrach na Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd cafodd ei newid i Le, Cynaliadwyedd a Newid yn yr Hinsawdd a'r Portffolios Cabinet canlynol a'u meysydd gwasanaeth priodol:-

- Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith
- Newid yn yr Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd

Yn ogystal, mynychodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau gyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau yn ymwneud â chyllid gan gynnwys adroddiadau monitro'r gyllideb ac roedd yr Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio a'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd yn bresennol i gyflwyno'r camau gweithredu perthnasol yn yr adroddiadau Monitro Perfformiad Corfforaethol sy'n berthnasol i'w cylch gorchwyl.

2.3 Y Flaengynllun Waith

Mae'r Pwyllgor Craffu – Lle, Cynaliadwyedd a Newid yn yr Hinsawdd yn datblygu ei Blaengynllun Gwaith ac mae materion sy'n rhan o'r cylch gorchwyl yn cwmpasu'r canlynol:-

Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff: gan gynnwys-

- Casglu Sbwriel,
- Glanhau Strydoedd,
- Cynnal a Chadw Tiroedd,
- Glanhau Adeiladau (gan gynnwys Ysgolion, lle bo hynny'n berthnasol),
- Toiledau Cyhoeddus
- Bioamrywiaeth;
- Carbon Sero

Trafnidiaeth a Gwasanaethau Stryd gan gynnwys:-

- Priffyrdd, Goleuadau Stryd, Pontydd
- Rheoli Traffig,
- Y Gwasanaethau Parcio,
- Llwybrau beicio a Hawliau Tramwy;

Gorfodaeth Amgylcheddol gan gynnwys:-

- Sbwriel a Baw cŵn;
- Cerbydau wedi eu gadael ac ati;
- Gorfodi Rheolau Cynllunio;
- Safonau Masnach;
- Rheoli Plâu o ran lechyd y Cyhoedd

Materion Diogelwch Cymunedol gan gynnwys:-

- Camddefnyddio sylweddau
- Atgyfeiriadau Trosedd ac Anhrefn (*gan gynnwys y pŵer i lunio adroddiad neu argymhellion i'r Cyngor Sir a/neu Gabinet y Cyngor*);

Ym mis Medi 2022, datblygodd y Pwyllgor, yn ei sesiwn datblygu Blaengynllun Gwaith blynyddol, ei Flaengynllun Waith ei hun drwy nodi adroddiadau cyn gwneud penderfyniad o Flaengynllun Gwaith y Cabinet a blaenoriaethu eitemau agenda i'w hystyried yn ystod blwyddyn y Cyngor nesaf.

Yn ogystal â'r eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad a chyllideb, ynghyd â chynlluniau gweithredu ac adroddiadau monitro, nododd y Pwyllgor adroddiadau cyn penderfynu o Flaengynllun Waith y Cabinet 2022/23.

Er bod gan y Pwyllgor opsiwn i gyfethol gweithwyr, swyddogion neu aelodau o Awdurdodau Cyfrifol neu bersonau neu gyrff cydweithredol nad ydynt yn pleidleisio mewn perthynas â'i swyddogaethau trosedd ac anrhefn, [yn amodol ar ddarpariaethau Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009], ni wnaeth hynny yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2022/23.


2.4 Y Fframwaith Porth ac adroddiadau wedi'u dosbarthu ar wahân (e-bost)

Yn ei sesiwn datblygu Blaengynllun Waith, defnyddiodd y Pwyllgor y Fframwaith Gateway i reoli nifer yr adroddiadau a gyflwynir ym mhob cyfarfod. O ystyried nifer yr adroddiadau sydd i'w hystyried, mae hyn yn galluogi'r Pwyllgor i gynnal proses graffu o ansawdd da.

Ar ôl nodi'r adroddiadau ar gyfer y Blaengynllun Gwaith , lluniodd y Pwyllgor ei raglen ymhellach drwy fynd â phob pwnc/adroddiad drwy'r Fframwaith Gateway.

Yn unol â'r Fframwaith, cytunodd yr Aelodau fod yr 11 adroddiad canlynol yn cael eu dosbarthu i'r aelodau drwy e-bost. Bu'r aelodau'n craffu ar yr adroddiadau fel y byddent mewn cyfarfod ffurfiol ac yn anfon unrhyw ymholiadau a/neu bryderon at y Swyddog Cymorth Craffu i drefnu ymateb. Roedd unrhyw ymholiadau a godwyd ynghyd ag ymatebion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Eitemau ar gyfer y Dyfodol.

Roedd y Pwyllgor yn adolygu ei Flaengynllun Gwaith yn rheolaidd, ac, fel dogfen gweithio hyblyg o bryd i'w gilydd, roedd adroddiadau'n cael eu haildrefnu i reoli'r broses Graffu yn unol â hynny.



2.5 Monitro Perfformiad

Cynlluniau Busnes Is-adrannol (o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu hwn) -

Cyflwynwyd cyfres o Gynlluniau Busnes Is-adrannol gan yr Aelodau Cabinet priodol i Aelodau'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2023. Rhoddodd y Pwyllgor Craffu ystyriaeth i'r camau a'r mesurau strategol yr oedd y gwasanaethau o fewn pob Is-adran wedi bwriadu eu gweithredu er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i Amcanion Llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth.

Derbyniodd y Pwyllgor y Cynlluniau Busnes Is-adrannol canlynol:

- Yr Is-adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth
- Yr Is-adran Amgylcheddol a Gwastraff
- Is-adran Dylunio a Chynnal a Chadw Eiddo
- Yr Is-adran Lle a Chynaliadwyedd
- Is-adran Gwella Gwasanaethau a Thrawsnewid

[Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2021/22](#) – Ym mis Tachwedd 2022 cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn cynnwys 15 Amcan Llesiant y Cyngor ac asesiad o'r cynnydd a'r addasiadau a wnaed yn ystod 2021/22. Canolbwyntiodd yr Aelodau ar yr adrannau canlynol yn y ddogfen sy'n berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor:

- Amcan Llesiant 10: Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol
- Amcan Llesiant 11: Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth

Cododd yr aelodau gwestiynau perthnasol ynghylch y newid yn yr hinsawdd, yr economi gylchol a rheoli fflyd (trydan).

Rhoddodd yr aelod Cabinet perthnasol, gyda chymorth Swyddogion, ymatebion manwl i'r Aelodau Craffu.

[Adroddiadau Rheoli Perfformiad 2020/21 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Craffu hwn](#) – Un o briif rolau pwyllgor craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau sydd o fewn ei faes gorchwyl. Ym mis Hydref 2022, cafodd y Pwyllgor gyfle i graffu ar yr adroddiad perfformiad drwy e-bost. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd ar ddiwedd Chwarter 1 gyda'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Gorfforaethol a'r amcanion Llesiant. Ni ddaeth unrhyw ymholiadau i law. Cafodd adroddiad Chwarter 2 ei ystyried yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2022.

[Cyngor Sir Caerfyrddin - Strategaeth Gorfforaethol 2022-27](#) - Derbyniodd y Pwyllgor y Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2022-27 yn ei gyfarfod ar 14 Ebrill, 2023 a chydabu fod y Strategaeth eisoes wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor llawn. Roedd hyn yn destun pryder i Aelodau'r Pwyllgor Craffu a gynigiodd fod Strategaethau Corfforaethol yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu mewn modd mwy amserol er mwyn i'r aelodau graffu'n briodol ar gynnwys y Strategaethau cyn iddynt gael eu cadarnhau gan y Cyngor llawn.

[Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gamau Gweithredu'r Pwyllgor Craffu](#) – Ym mis Hydref 2022 a mis Mai 2023, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn cynnwys y

wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd mewn perthynas â cheisiadau'r pwyllgor a'r camau gweithredu a ddeilliodd o gyfarfodydd y Pwyllgor er gwybodaeth.

2.6 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

[Adroddiadau Monitro'r Gyllideb](#) – dosbarthwyd i aelodau'r Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid yn yr Hinsawdd drwy e-bost yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor i graffu y tu allan i broses ffurfiol y Pwyllgor.

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol am y cyllidebau cyfalaf a refeniw adrannol a chorfforaethol.

- Hydref 2022 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 30 Mehefin 2022 a
- Tachwedd 2022 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Awst 2022
- Ionawr 2023 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Hydref 2022.

Roedd yr adroddiadau yn galluogi'r aelodau i fonitro'r gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

[Ymgynghoriad - Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 i 2025/26](#) - Ym mis Ionawr 2023, derbyniodd y Pwyllgor, fel ymgynghorai statudol, Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 i 2025/26 i'w hystyried a rhoi sylwadau arni. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cynigion presennol i'r Pwyllgor ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2022/23, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/23 i 2024/25.

Cododd y Pwyllgor nifer o gwestiynau a phryderon ynghylch y cyllidebau arfaethedig ar y materion a ganlyn:

- Targedau Sero-net
- Hysbysiadau Cosb Benodedig – taliadau
- Taliadau Gweinyddol Trwydded Parcio i Breswylwyr
- Hyrwyddo'r cynllun Prynu â Hyder
- Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref
- Cynnal a Chadw Eiddo – mesurau effeithlonrwydd
- Cludiant Ysgol - Anghenion Ychwanegol Cyllidebau Teithio Personol
- Rheoli Traffig - arloesedd ym maes Diogelwch Ffyrdd

Ymatebwyd i'r ymholiadau gan yr Aelodau Cabinet priodol gyda chymorth Swyddogion. Yn ogystal, wrth ystyried y cynigion o ran arbedion, cynigiodd y Pwyllgor yn ffurfiol, mewn perthynas â chyflwyno taliadau parcio yn y 9 maes parcio a oedd yn rhad ac am ddim i barcio ar hyn o bryd, y dylai'r Aelod Cabinet eu hadolygu fesul achos'

Canlyniad:

Helpodd y sylwadau, y pryderon a'r argymhellion a godwyd gan y Pwyllgor i lunio strategaeth y gyllideb Refeniw ar gyfer 2023/24 – 2024/25 a gafodd ei hystyried yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 1 Mawrth 2023.

Mewn ymateb i gynnig y Pwyllgor, byddai'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gwastraff, Trafnidiaeth a Seilwaith yn cynnal adolygiad ac yn cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor ei ystyried.

2.7 Adroddiadau Craffu cyn Gwneud Penderfyniadau

2.7.1 Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (Cryfhau mesurau rheoli cysylltiedig â chŵn) Tachwedd 2022

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ynghylch y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ychwanegol ar gyfer Gorchymynion Cŵn Sir Gaerfyrddin, a oedd yn cynnwys canlyniadau arolwg ymgysylltu diweddar mewn perthynas â'r potensial i gyflwyno rheolaethau cŵn atodol drwy gyfrwng Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus ychwanegol lle mae tystiolaeth yn cefnogi'r angen am orchmynion ychwanegol.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn frwd ynghylch y pwnc hwn gan ei fod yn effeithio ar bob cymuned yn Sir Gaerfyrddin. Yn dilyn trafodaeth hir ynghylch y posibilrwydd o wahardd cŵn o gaeau chwaraeon, penderfynodd y Pwyllgor argymhell i'r Cabinet y dylid cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ychwanegol i wahardd cŵn o feysydd chwaraeon diffiniedig yn y Sir.

Canlyniad

Cytunodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd i wneud gwaith pellach i archwilio'r posibilrwydd a'r materion cyfreithiol mewn perthynas â chynnig y Pwyllgor. Byddai adroddiad pellach yn cael ei ddarparu ar ôl ei gwblhau.



2.7.2 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Wastraff – Rhagfyr 2022

Ar ei gais, cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddarau ynghylch Strategaeth Wastraff 2021-2025, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gwastraff, Trafnidiaeth a Seilwaith. Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb i'r Aelodau o'r polisiau rheoli gwastraff presennol yr oedd eu hangen i wella perfformiad gweithredol a strategol.



Cododd yr Aelodau a oedd yn frwdfrydig yn eu hymagwedd at wella rheolaeth gwastraff yn Sir Gaerfyrddin, nifer o gwestiynau ac ymatebwyd iddynt gan yr Aelod Cabinet gyda chymorth Swyddogion mewn perthynas â:-

- Gwasanaeth Casglu Gwydr
- Cynhyrchion Hylendid Amsugol (AHP) a'r hyn a dderbyniwyd felly
- Sbwriel heb ei gasglu
- Pryderon ynghylch y casgliadau bagiau du bob 3 wythnos
- Pryderon ynghylch y cynnydd posibl mewn tipio anghyfreithlon

Canlyniad

PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnydd a chyflawniad ynghylch y wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth Wastraff 2021.

2.7.3 Llawlyfr Cynnal a Chadw'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd – Ionawr 2023,

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor yn gofyn i'r Aelodau ystyried a rhoi sylwadau ar rannau 4.5, 4.6 a 4.7 o Lawlyfr Cynnal a Chadw'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrddcyn i'r Cabinet ei fabwysiadu. Roedd y prif bryderon a godwyd yn ymwneud â blaenoriaeth isel a roddwyd i statws ffyrdd gwledig. Yn ogystal, codwyd ymholiadau ynghylch:-

- Cyfrifoldebau tirlfeddianwyr
- Dyfrffyrdd – cyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyngor
- Pibellau draenio

Gyda chymorth Swyddogion, ymatebodd yr Aelod Cabinet i'r pryderon a rhoddodd esboniadau trylwyr o'r system flaenoriaethu o ran asesu, archwilio ac atgyweirio a'r cyfrifoldebau.

Canlyniad:

Penderfynwyd yn unfrydol argymhell i'r Cabinet y dylai Rhannau 4.5, 4.6 a 4.7 y Llawlyfr Cynnal a Chadw'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd gael eu cymeradwyo.

2.7.4 Cynllun Noddi Cylchfannau – Ebrill 2023

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad ar Gynllun Noddi Cylchfannau newydd arfaethedig a oedd yn cynnwys gwybodaeth yn amlinellu sut y byddai'r cynllun yn gweithio'n ymarferol gan ystyried unrhyw faterion cyfreithiol posibl.

Er bod yr Aelodau'n croesawu'r cynllun arfaethedig, codwyd nifer o gwestiynau mewn perthynas â chostau a blaenoriaethu busnesau.

Canlyniad:
Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol argymhell i'r Cabinet y dylai Cynllun Noddi Cylchfannau gael ei gymeradwyo.

2.7.5 Cynllun Rheoli Strategol Glanhau Strydoedd 2023 - Mai 2023

Yn unol â Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor, cyflwynwyd Cynllun Rheoli Strategol Glanhau Strydoedd 2023 gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r ffordd y byddai'r Cyngor yn adolygu ac yn gwella'r modd yr oedd yn darparu gwasanaethau glanhau wrth fodloni gofynion deddfwriaethol Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Gyda chymorth Swyddogion, rhoddodd yr Aelod Cabinet ateb i gwestiynau yn ymwneud â'r canlynol:-

- Gohebiaeth ynghylch y bwriad i waredu rhai biniau sbwriel
- Addysg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus
- Costau staffio mewn perthynas â sgôr Dangosydd Glendid Cymru Gyfan

Canlyniad:
Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol dderbyn Cynllun Rheoli Strategol Glanhau Strydoedd 2023

2.8 Adroddiadau Ychwanegol ac Adroddiadau Diweddarau

2.8.1 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ansawdd Aer – Tachwedd 2022

Ar gais y Pwyllgor, cyflwynwyd adroddiad diweddarau i aelodau'r Pwyllgor Craffu gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd. Roedd y diweddariad yn cynnwys y gwaith a wnaed mewn perthynas ag Ansawdd Aer yn Sir Gaerfyrddin sydd â thair Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) ar hyn o bryd - Llandeilo, Caerfyrddin a Llanelli. Roedd y diweddariad hwn yn nodi gwybodaeth am fonitro Nitrogen Deuocsid (NO₂) ar draws Sir Gaerfyrddin gan gymharu canlyniadau â'r blynyddoedd blaenorol.

Wrth ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad, cododd yr Aelodau bryderon cryf mewn perthynas ag ansawdd aer gwael parhaus yn Stryd Rhosmaen, Llandeilo a phwysleisiwyd mai'r unig ateb i wella ansawdd aer gwael yn Llandeilo fyddai datblygu ffordd osgoi. Cynigwyd bod e-bost yn cael ei anfon at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar ran y Pwyllgor i gefnogi ffordd osgoi Llandeilo.

Canlyniad:

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol y dylid anfon e-bost o'r Pwyllgor Craffu at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd er mwyn cyfleu cefnogaeth gref y Pwyllgor ar gyfer datblygu ffordd osgoi Llandeilo a fyddai'n gwella ansawdd yr aer yn Llandeilo a'r cyffiniau.

Ar ran y Pwyllgor, anfonodd y Cadeirydd e-bost at y Dirprwy Weinidog dros Newid yn yr Hinsawdd - Lee Waters AS.

Mewn ymateb i'r safbwyntiau a fynegwyd, derbyniodd yr Aelod Cabinet y canlynol gan y Dirprwy Weinidog dros Newid yn yr Hinsawdd:-

“Rydym ar hyn o bryd yn ystyried yr ystod o safbwyntiau a fynegwyd gan y cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch Llandeilo yng Ngham 2 Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru i gyflwyno cynigion a allai sicrhau consensws ymhlith rhanddeiliaid allweddol a chaniatáu i'r gwaith symud ymlaen i Gam 3 Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru.

I hwyluso'r consensws hwn, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn trefnu cyfarfod â swyddogion Cyngor Sir Gaerfyrddin i drafod cynigion i symud ymlaen i Gam 3. Pe bai'r ddau sefydliad yn dod i gytundeb, gellid symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu mesurau tymor byr a thymor canolig y gaeaf hwn a'u cyflawni o fewn 3 blynedd. Gallai datblygiad mesurau hirdymor symud ymlaen ochr yn ochr â hyn.”

Mewn ymateb pellach:-

“Rydym ar hyn o bryd yn ystyried yr ystod o safbwyntiau a fynegwyd gan y cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch Llandeilo yng Ngham 2 Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru i gyflwyno cynigion a allai sicrhau consensws ymhlith rhanddeiliaid allweddol a chaniatáu i'r gwaith symud ymlaen i Gam 3 Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. I hwyluso'r consensws hwn, trefnodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyfarfod â Chyngor Sir Gaerfyrddin i drafod cynigion i symud ymlaen i Gam 3 ym mis Rhagfyr 2022 a rhoi eglurhad pellach ynghylch yr opsiynau i'r cyngor ym mis Chwefror 2023.”

2.8.2 Canllaw Dylunio Draenio Priffyrdd ar gyfer Datblygiadau Newydd – Tachwedd 2022 – Craffu trwy E-bost

Ar gais y Pwyllgor, dosbarthwyd adroddiad a oedd yn atodi'r Canllaw Dylunio Draenio Priffyrdd i'r Aelodau Craffu trwy e-bost. Pwrpas yr adroddiad oedd darparu canllawiau manwl atodol i ddatblygwyr sy'n dylunio ac adeiladu systemau draenio dŵr wyneb ac yn cysylltu systemau draenio dŵr wyneb â draeniau priffyrdd presennol.

Ni ddaeth unrhyw sylwadau nac ymholiadau i law mewn perthynas â'r adroddiad.

2.8.3 Polisi Graffiti – Rhagfyr 2022 – Craffu trwy E-bost

Ar gais y Pwyllgor, dosbarthwyd adroddiad a oedd ynghlwm wrth y Polisi Graffiti i'r aelodau drwy e-bost ar gyfer craffu. Roedd y Polisi'n darparu'r gweithdrefnau a'r canllawiau presennol a oedd yn cael eu hadolygu a'r arfer gorau a nodwyd i sicrhau bod ymagwedd gytbwys tuag at Reoli Graffiti yn cael ei mabwysiadu.

Ni ddaeth unrhyw sylwadau nac ymholiadau i law mewn perthynas â'r adroddiad.

2.8.4 Cyngor Sir Caerfyrddin - Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan – Rhagfyr 2022

Ar ôl i'r Cabinet gymeradwyo'r cynnig i fabwysiadu Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Sir Gaerfyrddin ym mis Rhagfyr 2021, derbyniodd y Pwyllgor, cyn i'r Cabinet ei ystyried, adroddiad diweddar. Codwyd y prif bwyntiau canlynol:-

- Annog y defnydd o gerbydau trydan yn y fflyd a chlybiau ceir trydan
- Ceisio tariff 'amser defnydd' gwell – e.e. codi tâl dros nos

Gyda chymorth Swyddogion, rhoddodd yr Aelod Cabinet ymatebion cynhwysfawr

Canlyniad:
Penderfynwyd yn unfrydol i argymhell i'r Cabinet y dylid mabwysiadu'r Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan arfaethedig ar gyfer y Cyngor.

2.8.5 Polisi Bagiau Tywod Sir Gaerfyrddin 2022 – Ionawr 2023 – Craffu drwy E-bost

Gofynnodd y Pwyllgor am gael derbyn y Polisi Bagiau Tywod ar e-bost ac anfonwyd y polisi at y Pwyllgor ym mis Ionawr 2023. Roedd y polisi yn rhoi cyngor clir ynghylch pryd y bydd bagiau tywod yn cael eu defnyddio i reoli'r risg o lifogydd.

Ni ddaeth unrhyw sylwadau nac ymholiadau i law mewn perthynas â'r adroddiad.

2.8.6 Lefelau Ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol Gwarchoddedig - Diweddariad - Chwefror 2023

Ar gais y Pwyllgor, cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio ynghylch y cynnydd a'r gwaith a wnaed i ymateb i effeithiau llygredd ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a warchodir.

Canlyniad:
Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol dderbyn yr adroddiad diweddarau

2.8.7 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Strategaeth Farchogaeth Sir Gaerfyrddin – Ionawr 2023

Ar gais y Pwyllgor, cafodd adroddiad ar y Diweddariad ynghylch Strategaeth Farchogaeth Sir Gaerfyrddin ei gyflwyno gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith

Wrth gydnabod y rhwydwaith eang, cododd yr Aelodau bryderon ynghylch tangyllido'r adrannau gan gydnabod fod angen mwy o fuddsoddiad yn y maes hwn i arbed llwybrau.

Canlyniad:
Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Strategaeth Farchogaeth

2.8.8 Newidiadau Llywodraeth Cymru i Derfynau Cyflymder mewn Deddfwriaeth (20mya) - Ionawr 2023

Ar ôl gwneud cais i gynnwys y pwnc hwn yn ei Flaengynllun Gwaith, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad llawn gwybodaeth ynghylch Deddfwriaeth Terfyn Cyflymder 20mya Llywodraeth Cymru.

Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y newid yn y ddeddfwriaeth sy'n cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2023. Byddai'r ddeddfwriaeth yn lleihau'r terfyn cyflymder diodyn 30mya presennol ar ffyrdd cyfyngedig (â goleuadau stryd) mewn ardaloedd preswyl i 20mya.

Roedd yr Aelodau'n teimlo bod y wybodaeth yn yr adroddiad yn werthfawr ac yn codi cwestiynau mewn perthynas â:-

- Ariannu'r newid mewn deddfwriaeth – e.e. arwyddion, adnoddau, Gorchmynion Rheoli Traffig
- Gorfodaeth

Canlyniad:
Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad

2.8.9 Strategaeth Coed a Choetiroedd ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin 2023-2028 – Chwefror 2023

Gofynnodd y Pwyllgor am gael cynnwys y Strategaeth Coed a Choetiroedd yn ei Flaengynllun Gwaith gan fod y strategaeth yn mynd i'r afael â chyfrifoldebau'r Awdurdod ynghylch rheoli coed a choetiroedd yn ogystal â chyfleoedd i blannu newydd.

Cododd Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau perthnasol mewn perthynas â'r strategaeth ac ymatebwyd yn fanwl iddynt gan yr Aelod Cabinet o dan gymorth Swyddogion.

Canlyniad:
Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn y Strategaeth Coed a Choetiroedd ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin 2023-28

Cynllun Busnes Cwm Environmental Ltd 2022-23 ac Adroddiad Cynnydd Hanner Blwyddyn - Mai 2023

Ym mis Ionawr, yn unol â Chynllun Gwaith Cychwynnol y Pwyllgor, derbyniodd yr Aelodau Blaengynllun Gwaith Cwm Environmental Ltd 2022-23 ac Adroddiad Cynnydd Hanner Blwyddyn – Mai 2023 drwy e-bost. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2023, penderfynodd y Pwyllgor, mewn ymateb i gais gan aelod o'r Pwyllgor, ystyried yr adroddiad mewn cyfarfod ffurfiol drwy ei gynnwys ar yr agenda ym mis Mai 2023.

Roedd yr adroddiad wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth fasnachol sensitif mewn perthynas â busnes y cwmni a pheidiwyd â datgelu'r wybodaeth i'r cyhoedd ac fe'i hystyriwyd yn breifat.

Roedd Cynllun Busnes CWM Environmental Ltd ar gyfer y cyfnod tair blynedd rhwng 2022-23 a 2024-25 ac mae wedi'i lunio i nodi amcanion strategol y cwmni, ei amcanion darparu gwasanaethau, y risgiau masnachol y mae'n ei wynebu ynghyd â'i berfformiad ariannol disgwylidig. Mae hefyd yn sicrhau bod strategaeth CWM yn cyflawni ac yn cyd-fynd ag agenda gwastraff ac amcanion ehangach Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Adroddiad Cynnydd yn rhoi diweddariad canol blwyddyn ar berfformiad a chamau gweithredu yn erbyn y cynllun busnes ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.

Cododd yr Aelodau gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:

- Costau ariannol;
- Compost a'i strategaeth brisio;
- Cerbydau trydan yn y rhaglen adnewyddu fflyd 2025-2030 – materion a chostau cysylltiedig;
- Economi Gylchol;
- Y Gweithdy Atgyweirio a'r Siop Ailddefnyddio (ETO).

Ymatebwyd i'r ymholiadau gan Reolwr Gyfarwyddwr Cwm Environmental Ltd gyda chymorth Swyddogion.

Canlyniad:

Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn Cynllun Busnes Cwm Environmental Ltd 2022-23 ac Adroddiad Cynnydd Hanner Blwyddyn.

2.9 Atgyfeiriadau

Ni dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw atgyfeiriadau ym mlwyddyn y Cyngor 2022/23.

2.10 Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Awgrymu Pynciau ar gyfer Pwyllgorau Craffu

Mae gwranddo ar y cyhoedd a rhoi llais iddynt yn allweddol i effeithiolrwydd craffu. Roedd yn bwysig i'r Pwyllgor roi cyfle i bobl Sir Gaerfyrddin (a thu hwnt) lunio'r Flaengynllun Waith. Darparodd yr adran Gyfathrebu gyfrwng iddynt gyfrannu trwy'r cyfryngau cymdeithasol trwy gydol blwyddyn y Cyngor gan roi sylw i bynciau amrywiol ar y Flaengynllun Waith Craffu.

Yn ogystal, gan gydymffurfio â deddfwriaeth ynghylch cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith craffu, ym mis Ebrill 2018, cytunodd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu i anfon gohebiaeth at Gynghorau Tref a Chymuned a fyddai'n cynnwys gwybodaeth i annog cynnydd o ran presenoldeb y cyhoedd yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Craffu a gofyn iddynt hefyd am awgrymiadau ar gyfer pynciau i'w hystyried yn y dyfodol. Mewn ymateb i hyn, derbyniodd y Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd y ceisiadau canlynol gan ddau Gyngor Tref a Chymuned a gafodd eu hystyried fel rhan o sesiwn datblygu Blaengynllun Waith y Pwyllgor Craffu ym mis Ebrill 2022:-

1) Cyngor Cymuned Gorslas

Pwnc - Y Cyngor Sir yn cydgysylltu camau gweithredu ar draws y Sir o ran y mater o gŵn yn baeddu mewn mannau cyhoeddus /parciau

Penderfyniad y Pwyllgor

Byddai'r mater hwn a'r awgrymiadau'n cael eu hystyried fel rhan o'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus.

2) Cyngor Cymuned Gorslas

Pwnc – Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer archwilio a thrwsio offer chwarae gan Gyngor Sir Caerfyrddin

Penderfyniad y Pwyllgor

Nid oedd hyn o fewn cylch gorchwyl yr Awdurdod gan mai cyfrifoldeb Cynghorau Tref a Chymuned oedd ardaloedd chwarae ac offer.

3) Cyngor Cymuned Llandyfaelog

Pwnc – Sbwriel ar ffyrdd gwledig, yn enwedig mewn ardaloedd o fewn radiws o fwytai prydau parod cyflym lleol

Penderfyniad y Pwyllgor

Roedd y mater hwn wedi'i ystyried yn flaenrol mewn cyfarfod lle cyflwynwyd Strategaeth yr Amgylchedd ynghylch Ansawdd Lleol. Byddai ystyriaeth bellach yn cael ei gwneud fel rhan o adolygiad y Strategaeth Wastraff.

3. Gweithgarwch y Pwyllgor Craffu

3.1 Ymchwiliadau Craffu (Gorchwyl a Gorffen)

Yn ei Sesiwn Datblygu'r Flaengynllun Waith a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r awgrym a gafwyd gan Gyngor Cymuned Llandyfaelog sef bod y Pwyllgor yn ystyried y materion yn ymwneud â thipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin. Wrth gydnabod bod tipio anghyfreithlon yn broblem gynyddol yn Sir Gaerfyrddin, awgrymodd Aelodau'r Pwyllgor fod tipio anghyfreithlon yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd a chymunedau awgrymwyd y dylid ystyried y mater hwn yn adolygiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Wrth gadarnhau ei Flaengynllun Waith yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2021, penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol y byddai ei drefniadau Gorchwyl a Gorffen ar gyfer 2021-22-23 fel a ganlyn:

- 1) * Adolygiad ar dipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin
- 2) Adolygiad ar Fridio Cŵn yn Sir Gaerfyrddin.

*Wrth wneud y penderfyniad uchod, disodlodd y Pwyllgor benderfyniad blaenorol y Pwyllgor a wnaed yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2019 - "penderfynwyd yn unfrydol mai bridio cŵn yn Sir Gaerfyrddin fydd y pwnc ar gyfer adolygiad Gorchwyl a Gorffen nesaf y Pwyllgor yn 2021".

Ar ôl cytuno i gyflawni Gorchwyl a Gorffen ar faterion tipio anghyfreithlon, derbyniodd y Pwyllgor y Ddogfen Gynllunio a Chwmpasu Drafft Gorchwyl a Gorffen ar Reoli Tipio Anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin a chytunwyd ar Aelodaeth Wleidyddol gytbwys o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Dechreuodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr adolygiad ym mis Medi 2021.

Fodd bynnag, cafodd Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ei gyfarfod cyntaf ar 8 Medi 2021 wybodaeth ddiweddaraf annisgwyl gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ynghylch materion mewnol a oedd wedi codi ers i'r Pwyllgor Craffu gytuno ar ei drefniadau Gorchwyl a Gorffen a chymeradwyo adolygiad o'r ddogfen gynllunio a chwmpasu ym mis Gorffennaf. O ystyried y wybodaeth a dderbyniwyd, cytunodd y Grŵp yn unfrydol i ohirio'r adolygiad ynghylch Tipio Anghyfreithlon hyd at 2022 ar ôl y broses etholiadol. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diweddarau gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn amlinellu penderfyniad a rhesymau'r Grŵp.

Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2022, bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn cymeradwyo Dogfen Cynllunio a Chwmpasu Gorchwyl a Gorffen ddiwygiedig ar reoli tipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin. Ffurfiodd y Pwyllgor grŵp Gorchwyl a Gorffen, a fyddai'n gytbwys yn wleidyddol, i gynnal yr adolygiad sydd i ddod i ben yn haf 2023.

3.2 Datblygu Aelodau ac Ymweliadau Safle

Yn dilyn yr etholiadau, derbyniodd yr aelodau raglen ddatblygu helaeth a oedd yn cynnwys y sesiynau / seminarau canlynol yn ystod 2022/23:-

- Cyflwyniad a throsolwg o sut i ddefnyddio Zoom
- Cyflwyniad a throsolwg o mod.gov
- Côt Ymddygiad, Moeseg, Safonau, Cyfrifoldebau a Dyletswyddau Cyfreithiol
- Cyflwyniad i Gyngor Sir Gaerfyrddin a Lansio'r Rhaglen Sefydlu
- Materion Cyfansoddiadol a Pharatoi ar gyfer Cyfarfodydd
- Cyllid Llywodraeth Leol
- Rheoleiddwyr Allanol
- Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin
- Newid yn yr Hinsawdd, Lliniaru a Datgarboneiddio
- Cynllunio
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Llythrennedd Carbon
- Diogelwch Personol a Hunanofal, Rheoli Straen, Gwytnwch Personol, Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith
- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Seiberddiogelwch
- Cyflwyniad i Farchnata a'r Cyfryngau
- Y Lluoedd Arfog
- Polisi Cwynion
- Trawsnewid i Wneud Cynnydd
- Cynlluniau Argyfwng
- Deddfwriaeth Arafu Traffig
- Cwmnïau sy'n eiddo i'r Cyngor
- Cytundebau Cyfreithiol Adran 106
- Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor
- Adolygiad o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg
- Newidiadau Gwastraff yn y Dyfodol
- Hyfforddiant Cronfa Bensiwn Dyfed
- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- Ymholiadau gan Aelodau
- Gweithdy ynghylch y Strategaeth Gorfforaethol
- Sesiwn Briffio ynghylch Atgyweiriadau Tai
- Sesiwn Briffio ynghylch Ardaloedd Cadwraeth

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2022/23 a'r rhaglen gyfalaf 5 mlynedd.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn cynnwys sesiynau datblygu anffurfiol â ffocws i'w Blaengynllun Gwaith a oedd yn eu helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r polisïau a rhai agweddau gweithredol y prif feysydd pwnc sy'n bwysig ac yn berthnasol i gymunedau yn Sir Gaerfyrddin.

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau datblygu â ffocws ar bwnc penodol yn syth ar ôl cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor craffu a drefnwyd. Rhoddodd swyddogion gyflwyniad ar y pwnc y cytunwyd arno, ac roedd yr Aelod Cabinet yn bresennol. Roedd hyn yn gyfle i Aelodau Craffu ofyn cwestiynau a thrafod syniadau.

Rhoddwyd y sesiynau datblygu canlynol i'r aelodau:-

- Strategaeth Ansawdd yr Amgylchedd Lleol
- Llifogydd
- Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd a'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch newid deddfwriaeth terfyn cyflymder Llywodraeth Cymru (20mya)
- Cadwraeth a'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun peilot i reoli tir ar gyfer pryfed peillio yn Sir Gaerfyrddin
- Gwastraff
- Diweddariad ar Strategaeth ynghylch Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol y Bwrdd Cynllunio Ardal
- Camddefnyddio sylweddau

4. Heriau

Esgorodd y flwyddyn ddiwethaf ar heriau o ran newid yn nifer aelodau'r pwyllgor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2023, fodd bynnag bu'r pwyllgor yn gweithio i oresgyn hyn drwy ddarparu sesiynau datblygu a chymorth craffu.

Yn ogystal, ym mis Medi, bu newid yn o ran enw, cylchoedd gorchwyl, a phrosesau adrodd y pwyllgor craffu a gymerodd amser i aelodau a swyddogion ddod i arfer â hynny.

Yn anffodus, nid oedd dosbarthu adroddiadau i'w craffu drwy e-bost yn esgor ar yr un lefel o ymgysylltu a chraffu o ansawdd o gymharu â chyfarfod ffurfiol. Felly, o ran y dyfodol bydd yr Aelodau'n cael eu hatgoffa o'u dyletswydd i wneud gwaith craffu hyd yn oed wrth dderbyn yr adroddiadau ar ffurf gwahanol.

5. Gwaith y Pwyllgor yn y Dyfodol

Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried yn rheolaidd fel rhan o'r Flaengynllun Waith a bydd yn parhau i gael ei fonitro drwy'r flwyddyn.

Fel rhan o ddatblygiad y flaengynllun waith, bydd y Fframwaith Gateway yn cynorthwyo aelodau'r Pwyllgor i ddatblygu Blaengynllun Waith i sicrhau bod gwaith craffu penodol yn cael ei gyflawni gan sicrhau bod adroddiadau'n cael eu dosbarthu'n decach, bod gan y cyfrifoldebau statudol ffocws a'u bod yn cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau strategol y cyngor.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i chwilio am bynciau i'w trafod gan Gyngorau Tref a Chymuned yn flynyddol ac mae rhagor o wybodaeth am sut i gyflwyno pwnc i'w ystyried a gofyn cwestiynau mewn cyfarfod Craffu ar gael ar ein tudalen we Craffu:

<https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-democracy/committees-meetings/scrutiny/#.Xp7Am6aQxMs>

6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr.

Mae'r gefnogaeth ar gyfer y swyddogaeth Graffu yn cynnwys:

- Darparu cymorth a chynghor cyfansoddiadol i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- Rhoi cymorth a chynghor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu, a Fforwm Bwrdd Gweithredol y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu;
- Rhoi cynghor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli cydlyniant a datblygiad y blaengynlluniau gwaith Craffu ar y cyd â'r aelodau Craffu;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweithredu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, awdurdodi adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Rheoli rhaglen datblygu aelodau'r Pwyllgor Craffu
- Anfon yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys blaengynlluniau gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk

7. Presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor

Cynhaliwyd cyfanswm o 7 cyfarfod rhwng mis Mai 2022 a mis Ebrill 2023 trwy ddulliau rhithwir. Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn ystod blwyddyn 2022/23 yn cael ei ddangos yn y tabl isod.

Aelod y Pwyllgor Craffu	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	%
Y Cynghorydd Karen Davies	7	100
Y Cynghorydd Arwel Davies	6	86
Y Cynghorydd Colin Evans	3	43
Y Cynghorydd Neil Lewis	6	86
Y Cynghorydd Dorian Phillips	7	100
Y Cynghorydd Gareth Thomas	5	71
Y Cynghorydd Peter Cooper	4	57
Y Cynghorydd Shelly Godfrey-Coles (ymunodd â'r Pwyllgor ar 24/11/22)	3	43
Y Cynghorydd Tina Higgins	7	100
Y Cynghorydd John James	7	100
Y Cynghorydd Gary Jones	3	43
Y Cynghorydd Sue Allen	7	100
Y Cynghorydd Nysia Evans (gadawodd y Pwyllgor ar ôl 4/10/22)	1	14

Dirprwyon	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Y Cynghorydd Deryk Cundy	2
Y Cynghorydd Alex Evans	2
Y Cynghorydd Dot Jones	1
Y Cynghorydd Hefin Jones	1
Y Cynghorydd Michelle Donoghue	1
Y Cynghorydd Tyssul Evans	1

Aelodau'r Cabinet	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Y Cynghorydd Ann Davies	1
Y Cynghorydd Philip Hughes	1
Y Cynghorydd Alun Lenny	2
Y Cynghorydd Edward Thomas	6
Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen	7

